



national
museum
cardiff
amgueddfa
genedlaethol
caerdydd

Ilyfryn gweithgareddau oriel esblygiad cymru ac oriel y byd naturiol

Dewch ar daith 4600 miliwn o flynyddoedd drwy amser er mwyn darganfod mwy am anifeiliaid y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Cerddwch o gwmpas orielau *Esblygiad Cymru a'r Byd Naturiol* i gael help gyda'r gweithgareddau.

Dilynwch y saethau coch i mewn i oriel Esblygiad Cymru. Ewch drwy ystafell y sêr a heibio'r ffilm am y 'Glec Fawr', i ddod o hyd i'r mathau cynharaf o fywyd.

Enw



*Does dim rhaid i chi orffen
pob gweithgaredd heddiw
– dewch â'r Ilyfr yma gyda
chi tro nes.*

national
museum
wales
amgueddfa
cymru



Arianwyd y Ilyfr gweithgaredd hwn gan roddion ymwelwyr.

y bywyd cynharaf

600 miliwn o flynyddoedd yn ôl

Ewch allan o 'ystafell y sêr' ac ewch at y casyn arddangos ar y dde i chi.

Mae'r ffosiliau hyn yn dystiolaeth o fywyd cynnar ar y ddaear 600 miliwn o flynyddoedd yn ôl – olion rhyfedd o slefrenni môr a chreaduriaid tebyg i fwydod ar y graig.

Ewch rownd y gornel i ddod o hyd i drilobitau. Creaduriaid y môr oedd trilobitau.

Ydyn nhw'n eich atgoffa chi o anifeiliaid sy'n fyw heddiw? Pa rai?

Mwydod

Moch coed

Pysgod

► Pa drilobit sydd fwyaf? Tynna lun ohono yma.



Rhowch eich nodiadau yma

Blank lined area for notes.

riffiau cwrel silwraidd

425 miliwn o flynyddoedd yn ôl

Ewch ymlaen drwy'r oriel (a thrwy amser!) tan i chi ddod o hyd i'r arddangosiad ar riff gwrel.

Allwch chi ddod o hyd i mi?

► Pa frawddeg sy'n mynd gyda beth yn y llun?

Mae gen i freichiau fel plu a choes hir. Dwi'n edrych fel lili. **Crinoid ydw i.**

Mae gen i gragen hir fel côn, tentaclau a 2 lygad mawr. **Orthocôn ydw i.**

Mae gen i gragen siap torch a dwi'n edrych yn debyg i bethau sy'n byw yn eich gardd. **Gastropod ydw i.**



Llawer o greaduriaid bach sy'n byw gyda'i gilydd mewn un lwmpyn ydyn ni. Rydyn ni'n gwneud llawer o batrymau gwahanol. **Cwrel ydym ni.**

► Allwch chi ddod o hyd i unrhyw greaduriaid eraill yn y riff gwrel hon?

Blank lines for writing answers.

Defnyddiwch y ffosiliau yn y cesys i'ch helpu

bywyd mewn fforestydd glo

300 miliwn o flynyddoedd yn ôl

Ewch ymlaen i'r oriel nesaf a dewch o hyd i'r hen goedwig. Fel hyn oedd Cymru'n edrych 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl.

Edrychwch ar y pryfaid – roedden nhw lawer yn fwy bryd hynny nag y maen nhw heddiw.




► Defnyddiwch yr arddangosiad a'r paneli gwybodaeth i'ch helpu chi gyda'r croesair.

Ar draws

- 1 Fforestydd _____ yw'r enw ar y rhain (3)
- 2 Roedd yr _____ yn isdrofannol (8)

I lawr

- 3 Faint o chwilod du allwch chi weld yn yr arddangosiad? (3)
- 4 Beth yw'r creadur dychrynlyd tu ôl i'r bonyn? (6)



deinosaoriaid yng nghymru

220-65 miliwn o flynyddoedd yn ôl

Dilynwch sŵn y deinosaoriaid. Yma fe welwch chi sgerbydau, modelau ac olion traed deinosaoriaid gafodd eu darganfod yma yng Nghymru.


► Allwch chi ddod o hyd i'r holl ddeinosaoriaid yma yn yr oriel ac yn y chwilair?

E	D	M	O	N	T	O	S	A	U	R	E	U	
P	T	R	E	P	S	N	D	G	C	A	P	L	
L	C	V	O	E	W	D	A	H	O	Y	S	I	
A	V	M	P	M	O	Q	E	U	E	F	O	A	
T	R	E	X	S	C	P	F	I	L	X	U	P	
E	I	G	E	L	S	E	P	H	O	C	D	W	
O	D	A	S	Q	B	F	R	X	P	R	C	H	
S	J	L	F	S	A	P	H	T	H	M	V	E	
A	N	O	K	L	D	W	B	N	Y	J	E	S	
U	N	S	S	A	P	A	T	O	S	A	U	R	
R	J	A	P	R	I	O	D	A	I	V	G	K	
K	I	U	H	S	U	T	C	E	S	F	A	R	
E	J	R	S	E	T	D	D	H	S	C	E	H	B

Deinosaoriaid:

- Plateosaur
- Megalosaur
- Coelophysis

- Apatosaur
- Edmontosaur
- T rex




oes yr iâ

1.6 miliwn-10,000
o flynyddoedd yn ôl

Ewch ymlaen drwy'r oriel ac ewch i mewn i ogof oes yr iâ. Dewch o hyd i'r mamothiaid gwlanog, y fam a'r babi.

Pa nodweddion oedd yn helpu'r mamoth gwlanog i fyw mewn amgylchedd oer?

► Cysylltwch y nodweddion cywir â'r mamoth.



Pa anifeiliaid eraill oedd byw yn ystod oes yr iâ? Tynnwch eu lluniau yma.

anifeiliaid heddiw oriel y byd naturiol

Heddiw

Ewch allan o oriellau *Esblygiad Cymru* ac ewch i mewn i'r oriel gyferbyn – oriel y *Byd Naturiol*.

Mae llawer o'r anifeiliaid rydych chi newydd eu gweld wedi marw allan ond mae holl anifeiliad yr oriel hon i'w gweld yn y byd heddiw.

► Chwiliwch am yr anifeiliad isod. Mae un anifail o bob grŵp yn y lle anghywir. Pa anifail sydd ddim yn perthyn i'r gweddill yn y grŵp?

Hawdd

Llewparad Eira
Gasél Thomson
Cranc Heglog
Mwnici Coed

Gweddol


Chwyddbysgodyn
Cleddbysgodyn
Ystlum Ffrwythau
Morgath

Anodd

Albatros Crwydrol
Aderyn Hymian
Ciwi
Ystlum Ffrwythau

Anodd iawn

Seren Fôr
Cranc Bwytdaw
Seren Frau
Gwelchyn Dŵr Ffosil



Atebion ar y
dudalen nesaf ➡

dyfodol anifeiliaid

Defnyddiwch y gofod hwn i ddylunio poster am lewpard yr eira. Defnyddiwch y ffeithiau isod i'ch helpu.

- Mae llewpard yr eira'n byw ym mynyddoedd creigiog canolbarth Asia. Maen nhw wedi addasu'n berffaith ar gyfer bywyd ar fynyddoedd oer. Allwch chi weid sut?
- Mae llawer o anifeiliaid mewn perygl oherwydd colli eu cynefin a gweithgareddau pobl. Yn aml, bydd pobl yn hela llewpard yr eira yn anghyfreithlon i gael ei ffwr neu am ei fod yn lladd eu hanifeiliaid lleol nhw.
- Gwybod am lewpardiaid yr eira a'u hamgylchedd bregus yw'r cam cyntaf i helpu'r cathod yma.

